# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 12.00 ar 3 Mawrth 2021; cynhaliwyd y cyfarfod drwy blatfform Microsoft Teams

**Yn bresennol ac ymddiheuriadau:** Gweler y rhestrau atodedig

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd Huw Irranca-Davies AS (y Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod, ac eglurodd sut i ddefnyddio'r cyfleusterau amrywiol ar Teams.

**Teithio llesol a diogelwch ar y ffyrdd**: Cyflwynodd y Cadeirydd Teresa Ciano o sefydliad Gan Bwyll Cymru. Rhoddodd Teresa gyflwyniad eang, gan ganolbwyntio ar rôl y bartneriaeth Gan Bwyll; y broses o rannu cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru, y pedwar heddlu yng Nghymru, a'r 22 awdurdod lleol; ac egwyddorion craidd y bartneriaeth ar gyfer sicrhau diogelwch ar y ffyrdd, sef Addysg, Peirianneg a Gorfodi. Amlinellodd y rhaglenni amrywiol sydd ar waith, gan gynnwys Ymgyrch Close Pass, sydd â'r nod penodol o wella diogelwch i feicwyr, a'r dull Amgylchynu'r Dre, lle mae cymuned benodol yn destun ymyrraeth ddwys sy'n targedu ystod eang o faterion yn ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd. Roedd copïau o'r cyflwyniad ar gael i'r sawl a oedd yn bresennol. Gellir gofyn i'r Ysgrifennydd am ragor o gopïau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd nifer o faterion: y drefn orfodi, yn enwedig mewn perthynas â therfynau 20 mya – rhoddodd Teresa sicrwydd i'r aelodau fod gan derfyn o 20 mya yr un statws ag unrhyw derfyn arall o safbwynt Gan Bwyll; pwysigrwydd y broses o ystyried yr effaith ataliol y mae ymddygiad gwael gan yrwyr yn ei chael ar deithwyr llesol; cydnabod pwysigrwydd y canfyddiadau ynghylch diogelwch sydd ynghlwm wrth bolisïau diogelwch ar y ffyrdd; y posibilrwydd o lacio terfynau cyflymder ar draffyrdd yn gyfnewid am dynhau terfynau ymhellach mewn ardaloedd trefol, efallai hyd at 15 mya; ymgysylltu â chwmnïau a gyrwyr masnachol er mwyn gwella ymddygiad ar y ffyrdd a hyrwyddo ymwybyddiaeth o feicwyr – tynnwyd sylw at y cynllun Driving for Better Business; cyflwyno'n fwy eang yr arwyddion ffyrdd sy'n cael eu defnyddio yng Ngwynedd ar hyn o bryd, sy'n cynghori modurwyr ynghylch y pellter pasio lleiaf wrth iddynt basio beicwyr; rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelwch cerddwyr a beicwyr wrth gynnal cyrsiau gyrwyr a gyfeiriwyd gan yr heddlu – mater sy'n cael ei lywodraethu gan ROWED.

Cytunwyd y dylid anfon llythyr at yr holl ymgeiswyr sy'n sefyll i fod yn Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yn eu holi ynghylch eu polisïau ar orfodi terfynau cyflymder, yn enwedig terfynau 20mya, ac ynghylch materion cyffredinol yn ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd a theithio llesol.

Diolchodd y Cadeirydd i Teresa am ei chyflwyniad, a oedd yn llawn gwybodaeth.

**Y system newydd ar gyfer cyllido teithio llesol**: Cyflwynodd y Cadeirydd Matthew Gilbert, sy'n arwain gwaith Trafnidiaeth Cymru ym maes teithio llesol. Rhoddodd Matthew

gyflwyniad manwl ynghylch sut y byddai Trafnidiaeth Cymru yn gweinyddu Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn modd mwy effeithiol. Eglurodd fod y system grantiau wedi cael ei symud i borth ar-lein newydd, a fydd yn sicrhau bod y broses o werthuso a sgorio cynigion, a’r broses o weinyddu grantiau, yn fwy effeithlon a chyson. Bydd y system hefyd yn darparu mwy o gymorth i awdurdodau lleol o ran y broses o ddatblygu prosiectau, gan gynnwys partneriaeth â Sustrans. O dan y system hon, bydd gofyn llunio adroddiadau cynnydd chwarterol. Roedd cynlluniau i ailsefydlu cyfarfodydd rhanbarthol ar deithio llesol, ynghyd â sesiynau adolygu gan gymheiriaid, gyda'r nod o rannu arfer da. Byddai mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned wrth baratoi a datblygu prosiectau, ac wrth fonitro’r cynlluniau gorffenedig. Gellir gofyn i Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol am gopïau o’r cyflwyniad llawn a roddwyd gan Matthew.

Codwyd y materion a ganlyn yn ystod y drafodaeth a ddilynol: mae ymgysylltu â chymunedau lleol yn hanfodol – ni all yr awdurdod lleol dybio mai’r awdurdod sy’n gwybod orau, ac mae angen symud tuag at ddull mwy cyd-gynhyrchiol; mae'r cylch cyllido blynyddol yn broblem fawr o ystyried bod angen i gynlluniau ddatblygu a thyfu dros nifer o flynyddoedd; sut y dylid ymgysylltu â phobl sydd â nam ar eu golwg ynghylch y defnydd o lwybrau a rennir; pwysigrwydd newid moddol – ni ddylid darparu cyllid ar gyfer cynlluniau nad oes modd iddynt ddangos y byddant yn cyflawni hyn; byddai Trafnidiaeth Cymru yn awgrymu newid cynlluniau pe bai modd eu gwella, a hynny yn ei rôl fel cyfaill beirniadol; byddai modd ariannu cynigion ar y cyd ar gyfer llwybrau trawsffiniol, gydag un awdurdod lleol yn arwain y broses gyflawni.

Diolchodd y Cadeirydd i Matthew am ei gyflwyniad, a roddodd gipolwg defnyddiol iawn ar y system newydd.

**Y wybodaeth ddiweddaraf am y Maniffesto:** Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y maniffesto bellach ar gael ar dudalen Facebook newydd: https://www.facebook.com/Senedd-Cross-Party-Group-on-the-ActiveTravel-Act-109110254560570. Anogwyd yr aelodau i ‘hoffi’ a rhannu’r dudalen.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** Roedd copïau o’r cofnodion wedi’u dosbarthu. Cytunwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Unrhyw fater arall:** Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd yn sgil trafodaethau’r grŵp â Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf ac yn dilyn hynny, ynghylch yr angen i sicrhau bod seilwaith teithio llesol ar waith mewn datblygiadau newydd cyn i bobl symud i'w cartrefi newydd. Dywedodd y Cadeirydd fod rhifyn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru, sef rhifyn 11, wedi'i gyhoeddi, a bod y rhifyn hwnnw’n cynnwys y ddarpariaeth dan sylw. Roedd y polisi newydd wedi cryfhau statws teithio llesol yn sylweddol mewn perthynas â’r broses gynllunio.

Atgoffodd y Cadeirydd y sawl a oedd yn bresennol mai’r cyfarfod hwn oedd cyfarfod olaf y Grŵp cyn etholiad y Senedd. Diolchodd i'r aelodau am eu gwaith caled wrth gefnogi achos

teithio llesol, gan nodi bod y gwaith hwn wedi arwain at gynnydd sylweddol. Diolchodd hefyd i'r Ysgrifennydd am ei waith yn cefnogi'r grŵp. Roedd yn edrych ymlaen at weld yr aelodau eto yn dilyn yr etholiad. Diolchodd sawl aelod i'r Cadeirydd am ei gyfraniad pwysig at lwyddiant y Grŵp.

**Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Teitl y swydd | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Huw | Irranca-Davies | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Jenny | Rathbone | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Anne | Adams-King | Prif Weithredwr | Beicio Cymru |
| Ken | Barker | | Cycling UK |
| Lindsey | Brown | Swyddog Teithio Llesol (Ysgolion) | Cyngor Caerdydd |
| Richard | Brunstrom | | Cycling UK, Gogledd Cymru |
| Abigail | Chatterjee | Intern | Helen Mary Jones AS/MS |
| Teresa | Ciano | Rheolwr Partneriaeth | Gan Bwyll, Diogelwch Ffyrdd Cymru |
| Dan | Coast | Ysgrifennydd | Beicio Casnewydd |
| Warren | Davies | Ysgrifennydd | Ymgyrch Beicio Wrecsam |
| Duncan | Dollimore | Pennaeth Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd | Cycling UK |
| Richard | Evans | Cadeirydd | Hyfforddiant Beicio Cymru |
| Catherine | Floyd | Ymgynghorydd Locwm ym maes Iechyd y Cyhoedd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Matthew | Gilbert | Arweinydd, Teithio Llesol | Trafnidiaeth Cymru |
| Owain | Griffiths | | Dinas Feicio Caerdydd |
| Stephen | Hughes | Swyddog Cyswllt Cymunedol | Lee Waters AS |
| Peter | King | Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth | Cyngor Bro Morgannwg |
| Hugh | Mackay | | Cycling UK, Bro Morgannwg |
| John | Mather | | Cycling UK (Gogledd Cymru) |
| David | Naylor | | Wheelrights |
| Gwenda | Owen | Swyddog Ymgysylltu – Cymru | Cycling UK |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amy | Preece | Rheolwr Prosiect / Project Manager | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Dareyoush | Rassi | Ysgrifennydd | Wheelrights |
| Paula | Renzel | Swyddog Polisi | Sustrans Cymru |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd | Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| Gemma | Roberts | Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus | Sefydliad Prydeinig y Galon |
| Emma | Sandrey | Cynghorydd Sir | Cyngor Caerdydd |
| John | Sayce | Cadeirydd | Wheelrights |
| Ben | Sears | Swyddog Cymorth Polisi Cynaliadwyedd, yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Gwyn | Smith | | Sustrans |
| Phil | Snaith | Ysgrifennydd | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Luke | Stacey | Swyddog Datblygu Mynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Paul | Streets | Swyddog Ysgolion | Dinas Feicio Caerdydd |
| Tom | Wells | Perchennog | bikebikebike |
| Leah | Young | Swyddog Prosiectau Teithio Llesol | Cyngor Dinas Casnewydd |

**Ymddiheuriadau:**
Joseph Carter, Pennaeth y Cenhedloedd Datganoledig, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
Sian Donovan, Cyfarwyddwr, Pedal Power
Llyr Gruffydd, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
Helen Mary Jones, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru